

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

Lleoliad Allanol – Lleoliad Allanol

Dyddiad: Dydd Gwener, 14 Chwefror  
2020

Amser: 10.00 – 11.57

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/6268>

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Ann Jones AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Janet Finch-Saunders AC Russell George AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Mike Hedges AC Dai Lloyd AC Lynne Neagle AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru John Howells, Llywodraeth Cymru Andrew Slade, Llywodraeth Cymru



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

	Christine Wheeler, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Mared Llwyd (Ail Clerc) Ross Davies (Dirprwy Clerc) Emily Williams (Ymchwilydd)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i staff Ysgol Gymraeg Bro Dur am y croeso gafodd y Pwyllgor ac am y cymorth a roddwyd wrth drefnu'r cyfarfod, a diolchodd i'r disgyblion am eu hymgysylltiad ac am gynnig cwestiynau i'r Prif Weinidog.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniwn a Bethan Sayed.

**2 Newid hinsawdd a'r datganiad Argyfwng Hinsawdd**

Holodd y Pwyllgor y Prif Weinidog am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn dilyn y datganiad Argyfwng Hinsawdd.

**3 Sesiwn i Graffu ar Waith y Gweinidog – Materion Amserol**

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Prif Weinidog ar faterion amserol.

Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am yr oedi wrth roi pasys bws newydd i bobl hŷn yng Nghymru

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Derbyniwyd y cynnig.

**5 Trafod y dystiolaeth o'r sesiwn flaenorol**

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth o'r sesiynau blaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am wybodaeth bellach am nifer o faterion, gan gynnwys argaeledd gwefrwyr cyflym ar gyfer cerbydau trydan a sut mae proses gosod cyllideb Llywodraethau Cymru yn chwarae rôl wrth gyflawni datgarboneiddio.

